

Rheoliadau'r Senedd ar gyfer Graddau Doethuriaeth Uwch

(Senior Doctoral Degrees)

1. CYFFREDINOL

Dylid darllen y Rheoliadau hyn ar y cyd ag Ordinhadau Academaidd Prifysgol Caerdydd, a fydd yn awdurdodi o ran materion sy'n ymwneud â dyfarnu cymwysterau Prifysgol Caerdydd.

Mae'r graddau doethuriaeth uwch a ddyfernir gan y Brifysgol wedi'u rhestru yn Rheoliadau'r Senedd ar gyfer Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd.

2. DIFFINIADAU

Bydd y diffiniadau canlynol yn gymwys o ran y Rheoliadau hyn:

Gwaith Cyhoeddedig

At ddibenion dyfarniadau doethuriaeth uwch, bydd y diffiniad o "waith cyhoeddedig" fel a ganlyn:

- a) Unrhyw gyfuniad o lyfrau, erthyglau, neu gyfansoddiadau cerddorol, wedi'u hargraffu neu eu hatgynhyrchu fel arall, sydd ar gael i'r cyhoedd drwy'r sianeli arferol trwy gael eu dosbarthu gan gwmni cyhoeddi neu gyfryw asiantaeth arall.
- b) Erthyglau neu gyfansoddiadau cerddorol, wedi'u hargraffu neu eu hatgynhyrchu fel arall, yn ymddangos mewn cyfnodolyn neu gyhoeddiad arall a noddir gan gymdeithas ddysgedig.

3. DERBYN ER YMGEISYDDIAETH

3.1 Gellir cyflwyno er ymgeisyddiaeth raddedigion o'r Brifysgol y maent wedi cymhwyso ers nid yn llai na dwy flynedd am radd doethuriaeth uwch yn ystod neu yn dilyn yr ail flwyddyn wedi iddynt gymhwyso am radd Doethur mewn Athroniaeth neu'r drydedd flwyddyn yn dilyn cymhwyso am radd Athro mewn Athroniaeth neu radd Athro gytras arall neu'r ddegfed flwyddyn yn dilyn cymhwyso am radd gychwynnol.

3.2 Yn achos Gradd Doethur mewn Gwyddoniaeth Ddeintyddol, gall Graddedigion o'r Brifysgol y maent wedi cymhwyso ers nid yn llai na dwy flynedd, sy'n meddu ar radd Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol, gael eu cyflwyno er ymgeisyddiaeth am radd Doethur mewn Gwyddoniaeth Ddeintyddol yn ystod neu yn dilyn yr ail flwyddyn, ar ôl cymhwyso am radd Doethur mewn Athroniaeth neu'r drydedd flwyddyn yn dilyn cymhwyso am radd Athro mewn Gwyddoniaeth Ddeintyddol, Athro mewn Gwyddoniaeth neu Athro mewn Athroniaeth neu'r ddegfed flwyddyn yn dilyn cymhwyso am radd Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol.

3.3 Gall aelod staff addysgu, ymchwil, gweinyddol, llyfrgell neu dechnegol y Brifysgol, neu Goleg Diwinyddol Cysylltiedig, a raddiodd o Brifysgol arall, fod yn ymgeisydd am radd doethuriaeth uwch ar yr amod:

3.3.1 bod ef/hi wedi gwneud gradd gychwynnol o leiaf ddeg mlynedd ynghynt, a

- 3.3.2** bod ef/hi wedi bod yn aelod o staff y Brifysgol neu Goleg Diwinyddol Cysylltiedig am o leiaf bum mlynedd.
- 3.4** At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae Graddedigion y Brifysgol yn cynnwys Graddedigion Prifysgol Cymru a gyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd neu ei sefydliadau rhagflaenol.

4. MEINI PRAWF YMGEISIO

- 4.1** Mae'n ofynnol i ymgeisydd am radd doethuriaeth uwch gyflwyno, er dyfarniad y Brifysgol, ei gyfraniadau/ei chyfraniadau at ddatblygiad gwybodaeth mewn pwnc a gydnabyddir at y diben hwnnw. Y pynciau a gydnabyddir at y diben hwnnw yw'r rheiny sy'n agored i ymgeiswyr am radd Athro mewn Athroniaeth ynghyd ag unrhyw rai sy'n gytras iddynt.
- 4.2** Yn achos ymgeiswyr a allai fod yn gymwys i wneud cais am radd o dan fwy nag un categori (e.e. naill ai DLitt neu DSc), bydd yr Is-Ganghellor, ar gyngor y Senedd, yn penderfynu pa radd doethuriaeth uwch a ddyfernir i'r ymgeisydd llwyddiannus.
- 4.3** Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno gwaith annibynnol sy'n gyfraniad sylweddol at wybodaeth. Gellir cyflwyno gwaith a wnaed ar y cyd i gefnogi'r ymgeisyddiaeth, ond rhaid i ddatganiad a lofnodir gan bob cydweithredydd yn nodi natur y gwaith a faint ohono a wnaed mewn cydweithrediad, gydfynd â'r gwaith hwnnw. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu crynodeb, o rhyw bedair neu bum dudalen, yn nodi'r maes neu'r meysydd y maent wedi arbenigo ynddynt, gan nodi hefyd y cyfraniad a wnaeth eu gwaith, yn eu barn nhw, i'r wybodaeth yn y maes hwnnw. Gellir galw'r ymgeisydd i gyfweiliad, yn unol â disgresiwn yr arholwyr.
- 4.4** Mae'n ofynnol i ymgeiswyr am radd DMus gyflwyno cyfansoddiadau cyhoeddedig neu lawysgrifau sy'n gyfraniad sylweddol at gelfyddyd cerddoriaeth. Gellir cyflwyno gwaith a wnaed ar y cyd i gefnogi'r ymgeisyddiaeth, ond rhaid i ddatganiad a lofnodir gan bob cydweithredydd yn nodi natur y gwaith a faint ohono a wnaed mewn cydweithrediad, gydfynd â'r gwaith hwnnw.

5. GWEITHDREFNAU YMGEISIO

- 5.1** Rhaid rhoi rhybudd am ymgeisyddiaeth i'r Cofrestrydd Academiaidd neu ei enwebai, ynghyd â dau gopi o bob gwaith cyhoeddedig y dymunir eu cyflwyno er dyfarniad y Brifysgol. Gellir rhoi rhybudd felly ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd, ond os rhoddir y rhybudd yn hwyrach na 31 Ionawr, ni chaiff canlyniad yr ymgeisyddiaeth ei bennu fel rheol ar ddyddiad a fydd yn caniatáu i'r ymgeisydd, os yw'n llwyddiannus, gael ei dderbyn i'r radd yn y flwyddyn academiaidd honno. Bydd ymgeiswyr yn datgan, wrth gyflwyno'u gwaith, faint, os o gwbl ohono sydd wedi cael ei gyflwyno neu sy'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd arall.
- 5.2** Rhaid anfon y ffi cyflwyno er ymgeisyddiaeth i'r Cofrestrydd Academiaidd neu ei enwebai, ynghyd â ffurflen swyddogol y rhybudd ymgeisyddiaeth.

6. YSTYRIED YMGEISIADAU

- 6.1** Ystyrir yr holl waith a gyflwynir gan ymgeisydd am radd doethuriaeth uwch gan bwyllgor a fydd yn cynnwys:

- 6.1.1** Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg perthnasol yn ôl maes y Radd Ddoethuriaeth Uwch;
- 6.1.2** dau aelod arall o'r Senedd a benodir gan Ddirprwy Is-Ganghellor y Coleg perthnasol.
- 6.2** Os yw'n fodlon bod achos *prima facie* wedi cael ei sefydlu i gyfeirio'r gwaith i'w archwilio'n fanwl ar gyfer y radd dan sylw, bydd y pwyllgor yn penodi tri chanolwr, y bydd dau ohonynt yn gweithredu i gychwyn. Os nad yw'r pwyllgor yn fodlon, bydd yn hysbysu'r Cofrestrydd Academaidd neu ei enwebai, a fydd yn hysbysu'r ymgeisydd.
- 6.3** Bydd y naill ganolwr a benodwyd yn anfon at y Cofrestrydd Academaidd neu ei enwebai adroddiad manwl ac annibynnol ynghylch cwmpas, ansawdd a gwreiddioldeb y gwaith, gan nodi, yn ei farn ef/ei barn hi a ddylid dyfarnu'r radd.
- 6.4** Wrth lunio'u hadroddiadau ar yr ymgeisyddiaeth am y ddoethuriaeth, gofynnir i'r canolwyr ystyried y cwestiynau canlynol, *sef*:
- 6.4.1** A yw gwaith yr ymgeisydd yn dangos meistrolaeth o'r pwnc?
- 6.4.2** A yw'r gwaith yn meddu ar ansawdd, gwreiddioldeb ac arbenigedd sy'n deilwng o'r radd y cyflwynwyd y gwaith ar ei chyfer?
- 6.4.3** (Ac eithrio ymgeiswyr am radd DMus) A yw'r gwaith yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad gwybodaeth o natur a fydd yn gwneud yr ymgeisydd yn arbenigwr cydnabyddedig yn y maes dan sylw?
- 6.4.4** A ellir ystyried bod yr ymgeisydd yn deilwng o dderbyn y radd?
- (Byddai'n gymorth sylweddol i'r Brifysgol wrth ystyried y gwaith yn derfynol, petai canolwyr, wrth ateb y cwestiynau hyn, yn datgan yn gryno'r prif resymau a'u harweiniodd at eu casgliadau.)
- 6.5** Atgoffir canolwyr mai diben y gofyniad am gyhoeddi yw sicrhau bod y gwaith a gyflwynwyd wedi bod ar gael am feirniadaeth gan arbenigwyr perthnasol, a bod canolwyr yn cael disgrisiwn i anwybyddu unrhyw waith a gyflwynwyd os nad yw'r gwaith, yn eu barn nhw, wedi bod ar gael ar gyfer beirniadaeth naill ai oherwydd ei anhygyrchedd neu oherwydd ei fod wedi cael ei gyflwyno am y radd yn rhy fuan yn dilyn ei gyhoeddi.
- 6.6** Cedwir adroddiadau ysgrifenedig y canolwyr yn archifau'r Brifysgol.

7. DYFARNU GRADD

- 7.1** Bydd adroddiadau'r ddau ganolwr yn cael eu cyflwyno gan y Cofrestrydd Academaidd neu ei enwebai i'r pwyllgor a benodwyd yn unol â pharagraff 6.1 uchod.
- 7.2** Bydd y pwyllgor yn ystyried argymhellion y canolwyr, a bydd yn cyflwyno adroddiad, gan gynnwys argymhelliad am ddyfarniad y radd, i'r Senedd.
- 7.3** Gall y pwyllgor wneud argymhelliad i'r Senedd yng ngoleuni ansawdd, manylder ac ati'r ddau adroddiad, hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno. Nid oes angen gofyn i'r trydydd canolwr gyflwyno adroddiad annibynnol o reidrwydd.
- 7.4** Y Senedd a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol am yr ymgeisyddiaeth.

8. Rhoddir un copi o'r holl weithiau a gymeradwyir gan yr arholwyr ar gadw yn Llyfrgell y Brifysgol, a'r llall yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.